

CYNGOR CYMUNED CYNWYL ELFED

CYFARFOD MICROSOFT TEAMS am 7.30 p.m. 26 o Fis Gorffennaf 2021

Yn Bresennol: Cyng. Bryan Davies (Cadeirydd), Cyng Julian Evans, Cyng. Delme Phillips, Cyng. Elfed Davies, a'r Cyng. Eurig Rees.

Ymddiheuriadau: Cyng. Eifion Jones, Cyng. Phillip Jones, Cyng. Elsbeth Page a'r Cynghorydd Sir Irfon Jones.

Materion Personol / Cyhoeddiadau

Cyng. Julian Evans, Cyng. Delme Phillips a'r Cyng. Elfed Davies yn unig yn bresennol felly methodd y cyfarfod a gynhaliwyd ar 19 Gorffennaf â chyrraedd cworwm. Penderfynwyd ail-drefnu'r cyfarfod i 26.07.21. Clerc i roi gwybod i'r holl aelodau a'r Cynghorydd Sir Irfon Jones am y penderfyniad hwn.

29	<u>Datgelu Buddianau Personol</u> Datgelodd y Cyng. Eurig Rees ei ddi-ddordeb personol ynghylch Cais Cynllunio PL/02105 Estyniad dau lawr i ochr Nantherwydd, Hermon SA33 6SR - nid oedd yn bresennol yng nghyfarfod 12.7.21 pan drafodwyd a chymeradwywyd y cais cynllunio.
30	<u>Cadarnhau'r Cofnodion - 21.06.21</u> Cadarnhawyd bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 21.06.21 yn gofnod cywir gan y Cyng. Eurig Rees ac eiliwyd gan y Cyng. Delme Phillips.
31.	<u>Materion yn Codi o'r Cofnodion</u>
a.	<u>Gwasanaeth Bws 460</u> - y mater yn parhau .
b.	<u>Safle Ail-gylchu</u> -y mater yn parhau - Dim datblygiad newydd ar hyn o bryd ond mae Cyngor Sir Caerfyrddin yn cynllunio i gynnwys gwydr yn ei casgliad gwastraff ailgylchu yn ystod y tair blynedd nesaf.
c.	<u>Cylch Meithrin Bro Elfed</u> - Swyddi arweinydd/staff yn cael eu hysbysebu ar hyn o bryd.
d.	<u>Cais am bin sbwriel yng Ngwmduad</u> - dal i aros am ymateb oddi wrth y Cyngor Sir.
e.	<u>Cyfleusterau Cyhoeddus</u> - ymestyn oriau agor a chostau cynnal a chadw'r bloc toiledau-aros am atebion i'r ymholiadau.
f.	<u>Carafanau statig</u> - Nodwyd cynnydd amlwg yn yr ardal. Cyng. Bryan Davies a Julian Evans i edrych mewn i'r sefyllfa a roi adroddiad ar eu canfyddiadau yng nghyfarfod nesaf y Cyngor Cymuned.
g.	<u>Materion Prifffyrdd adroddwyd ar 21.06.21</u> -Arosfan Esgair SA33 6UL - Tony Williams wedi ymateb ei fod yn barod i gwrdd a chynghorwyr os allynt roi dyddiad ac amser iddo. Clerc i drefnu cyfarfod Dydd Gwener 6.8.21 am 0900 os yn bosib.
h.	<u>Neuadd Cynwyl Elfed</u> - Mynychodd y Cyng. Eurig Rees a'r Cyng. Elfed Davies y Cyfarfod Blyneddol ar 30 Mehefin. Fe wnaethant adrodd bod pwyllgor y neuadd i aros yr un peth. Mae'r neuadd wedi'i pharatoi ac mae'n barod ac yn ddiogel i'w hagor cyn gynted ag y bydd y pwyllgor wedi derbyn sêl bendith Cyngor Sir Gâr.
i.	<u>Cyfrifiadur</u> - Penderfynnodd y Cyngor, gydag angen cynyddol i gadw Cofnodion y Cyngor yn electronig, ei bod yn angenrheidiol i'r Cyngor fuddsoddi mewn gliadiadur sy'n addas ar gyfer y gwaith.

32	<p>Gohebiaeth Mae copiau o'r holl e-byst perthnasol a dderbyniwyd wedi'u hanfon at Gyngorwyr cyn y cyfarfod.</p>
33	<p>Cynllunio PL/02067 - Adeiladu ty a garej - plot 3 cyfagos i Penderyn, Blaenycloed SA33 6ET PL/02071 - Cais cynllunio llawn ar gyfer un annedd anghenion lleol a gwaith cysylltiedig -ar dir i'r de o Awenydd, Blaenycloed SA33 6ET PL/02105 -Estyniad deulawr i ochr - Nantherwydd, Hermon, Caerfyrddin SA33 6SR PL/02055 - Estyniad unllawr cegin ag ystafell ymolchi. Ail-adeiladu tu flaen is-safonol(estynu dyfnder 1.373 metres ag uchder ag 0.998 metres) gan ychwanegu simnai allanol -Clynbugail, Cynwyl Elfed SA33 6UT PL/01435 - Estyniad deular i'r cefn - Highgate, Cynwyl Elfed SA33 6SU PL/02249 - Estyniad a newid deunydd - Cwm Tawel Lodge, Cynwyl Elfed SA33 6AR PL/02259 - Creu manau parcio tu blaen i'r annedd bresennol (dim lle parcio yno) - Cartref, Cynwyl Elfed, Caerfyrddin SA33 6TT Gosodwyd dyddiad cau'r ymgynhoriadau uchod cyn y cyfarfodydd misol a drefnwyd ar gyfer 19 a 26 Gorffennaf. Trefnwyd cyfarfod o gynghorwyr ar 12 ac 19 Gorffennaf i drafod y ceisiadau cynllunio hyn a chefnogwyd pob un o'r ceisiadau heb unrhyw wrthwynebiad cael ei lleisio. Penderfynodd y Cyngor gymeradwyo'r penderfyniadau a wnaed i gefnogi pob un o'r ceisiadau a restrir uchod.</p>
34	<p>Taliadau a Chyllud Cyflog y Clerc - 30.06.2021 £214.15 Cyflog y Clerc - 31.07.21 £214.35 H.M.R.C. £159.60</p> <p>Cytunodd y Cyngor i wneud y taliadau uchod.</p>
35.	<p>Materion Priffyrdd Penderfynwyd gan y Cyngor bod y Clerc i gysylltu â Cyngor Sir Gaerfyrddin ynglyn a:</p> <ol style="list-style-type: none"> a. SA33 6SP - Ffordd yn culhau rhwng Pantwdog a mynediad Newton Park ac y mae angen arwydd i rybyddio am hyn. b. SA33 6SP - Arwydd 30 mya wedi'i fwrw allan ô le eto. c. SA33 6EU - Heol Blaenycloed Wernant-Clunbach-Gwyneb y ffordd yn ofnadw o wael. d. SA33 6EP - Cyfagos a Penrhiwcrynfryn- Ceir yn sefyll wrth ymyl y ffordd ar bwys dau mynedfa i dir, yn achosi rhwystr a pheryg i yrrwyr. e. SA33 6SU -Ger tro Rhydygwin , cyfagos a Ffos y Ffin-gratyn wedi cwmpo gan adael twll mawr yn y ffordd. Peryg i yrrwyr. f. SA33 6ER - Rhiw Clawdd Coch-Ffordd rhwng Waun Cordiwns a Clawdd Coch- gwyneb y ffordd mewn cyflwr gwael iawn. g. SA33 6TP-Tro Mile End - Coed wedi'u torri yn ddiweddar a malurion wedi'u adael ac yn rhedeg mewn i'r gwteri gan adel y gwteri yn llai effeithiol. h. Dywedodd y Cyng. Bryan Davies bod yna broblem cyffredinol yn ystod y tymor gyda llawer mwy o dractorau a peiriannau ffermydd ar y ffyrdd. Tynnodd Cyng. Bryan Davies sylw cynghorwyr at ddau rheswm o bryder iddo 1. Lled y cerbydau a pheiriannau a 2. Bod angen i yrrwyr ystyried defnyddwyr eraill y ffordd. Penderfynwyd gan y Cyngor bod y Clerc yn ysgrifenni at Tîm Heddlu Cymunedol Gwledig.

<p>36</p> <p>a.</p> <p>b.</p> <p>c.</p>	<p><u>Unrhyw Mater Arall</u></p> <p><u>Cyfrifiadur-</u> Atgoffwyd y Cyngor gan Cyng. Delme Phillips bwysigwydd i'r Cyngor brynu cyfrifiadur yn benodol ar gyfer gwaith y Cyngor, sef eiddo'r Cyngor. Y Clerc a'r Cadeirydd i edrych mewn i hyn cyn y cyfarfod nesaf.</p> <p><u>Cynghorwyr Absenol-</u> Cynigiodd y Cyng. Elfed Davies dylid trafod absenoldeb parhaus rhai cynghorwyr. Cyfeiriwyd at yr anawsterau gafodd rhai aelodau o'r Cyngor i fod yn bresennol yn ystod cyfarfodydd anghysbell fel ffactor. Mae'n anodd cadw at y gyfarwyddeb gan Llywodraeth Cymru dylai cyfarfodydd wyneb yn wyneb y Cyngor bod yn hybrid, gan roi dewis y gallu i fynyachu trwy fynediad o bell os ydynt yn dymuno gwneud hynny. Nid oes mynediad i'r rhyngwyd ym man cyfarfod arferol y Cyngor. Penderfynwyd i gynnal cyfarfod Mis Medi yn Neuadd Cynwyl Elfed os yn bosib.</p> <p><u>Cyfarfod misol.</u> - Bydd dim cyfarfod misol Cyngor Cymuned yn ystod Mis Awst. Penderfynwyd gall y Cadeirydd a'r Is-Gadeirydd drafod a gwneud penderfyniadau ar ran y Cyngor ynghylch unrhyw busnes frys all godi yn ystod y cyfnod, gan alw am cyfarfod llawn o'r Cyngor os ydynt o'r farn bod hynny'n angenrheidiol.</p>
<p>37</p>	<p><u>Dyddiad ac amser y cyfarfod nesaf</u></p> <p>Nos Lun 20 Medi 2021 am 19.30 awr</p> <p>Daeth y cyfarfod i ben am 20.45 awr</p>

Arwyddwyd.....

Dyddiad.....